GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol

## Sganio'r Gorwel



# Sganio'r Gorwel - Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddol

Mae'r tabl isod yn darparu rhestr gynhwysfawr o bolisïau, cyhoeddiadau ac ysgogwyr strategol sydd wedi'u cyhoeddi, eu hadolygu, neu'u diweddaru a fydd yn dylanwadu ar ddatblygiad y cynllun gweithlu strategol ar gyfer gwasanaethau deintyddol. Mae'n cyfeirio at ffurf a chyflenwad gweithlu'r dyfodol ar gyfer GIG Cymru, ac yn berthnasol i hynny.

**Noder:** Nid yw'r tabl hwn yn rhestr gyflawn ac nid yw'n cynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth yn ei chyfanrwydd.

**Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd**

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Polisi / Strategaeth | | | | | | |
| 1. | Cymru Iachach – Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gofal Cymdeithasol Cymru / AaGIC) | Mae'r ddogfen hon yn ddogfen strategol allweddol a ddylai fod yn sail i'r Cynllun Gweithlu Strategol. Diben y strategaeth hon yw amlinellu'r heriau presennol y gweithlu ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a darparu cyfres glir o themâu a chamau gweithredu cryno a fydd yn helpu i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu. | Blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru | X | | |
| 2. | Cymru Iachach: Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a | Mae'r cynllun hwn yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor i'r dyfodol o ddull system gyfan ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan adeiladu ar athroniaeth gofal iechyd darbodus. Er mwyn cyflawni hyn bydd modelau newydd o iechyd a gofal | Ysgogiad polisi allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gofal Cymdeithasol<br>Llywodraeth Cymru | cymdeithasol lleol di-dor yn cael eu hadeiladu ar sail leol a chenedlaethol. Bydd y modelau hyn yn adeiladu ar sylfaen o arloesi lleol gan gynnwys drwy Glystyrau o ddarparwyr gofal sylfaenol a chymunedol.<br>Y gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG a 'Cymru Iachach' yw:<br>➢ Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth<br>➢ Integreiddio gwelliant<br>➢ Canolbwyntio ar atal, gwella iechyd ac anghydraddoldeb<br>➢ Gweithio mewn partneriaethau go iawn<br>➢ Buddsoddi yn ein staff<br>Er bod y gwerthoedd hyn yn darparu sylfaen dda ar gyfer cymeriad a diwylliant unigryw, mae angen gweledigaeth newydd fwy priodol ar gyfer y dyfodol a dyma sail yr hyn y mae 'Cymru Iachach' yn ceisio ei wneud. Mae'r dyfodol yn ansicr ac felly nid yw'n briodol bod yn rhy anhyblyg a gosod ein gwerthoedd. Mae'r strategaeth hon yn disgrifio chwe elfen newydd:<br>1) Bywydau hirach, iachach a hapus<br>2) Agwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol<br>3) System deg sy'n cyflawni canlyniadau iechyd cyfartal i bawb | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4) Gwasanaethau sy'n ddi-dor ac yn cael eu darparu mor agos i'r cartref â phosibl<br>5) Dim ond pan fydd hynny'n hanfodol y bydd pobl yn mynd i ysbyty cyffredinol<br>6) Defnyddio technoleg i gynorthwyo gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel<br>**Bywydau hirach, iachach a hapus** – mae ymagwedd gref at iechyd cyhoeddus yn allweddol<br>Mae angen i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain wrth ddewis ffactorau ffordd o fyw (ysmygu, cynnal pwysau iach, yfed gormodol) ond hefyd iechyd a lles eu teuluoedd, cymdogion ac ati. Bydd Llywodraeth Cymru yn galluogi hyn drwy wahanol fathau o ymgysylltu a rhannu gwybodaeth.<br>**Agwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol**<br>Dros y degawd nesaf, bydd gwasanaethau'n symud o ysbytai i gymunedau, ac o gymunedau i gartrefi. Bydd pobl yn cael eu cynorthwyo i aros yn weithgar ac yn annibynnol, yn eu cartrefi eu hunain, cyhyd ag y bo modd. Bydd llawer o'r newid hwn o ganlyniad i gynnal iechyd da, drwy roi mwy o bwyslais ar atal. Bydd ystod o gymorth drwy wahanol leoliadau fel gofal sylfaenol a chymunedol.<br>**System deg sy'n cyflawni canlyniadau iechyd cyfartal i bawb** | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Yng Nghymru mae gwahaniaethau mawr mewn disgwyliad oes iach, a bydd y dull system gyfan hwn yn cynnwys mynd i'r afael â dylanwadau ehangach (ansawdd/diogelwch, arian, adnoddau, gwaith da, tai priodol) fel bod pobl yn cael canlyniadau iechyd cyfartal ni waeth ble maen nhw'n byw. Bydd modelau gofal newydd yn cael eu defnyddio drwy weithio drwy bartneriaid a chymunedau.<br><br>**Gwasanaethau sy'n ddi-dor ac yn cael eu darparu mor agos i'r cartref â phosibl**<br><br>Mae hyn yn sicrhau bod pob elfen o iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei darparu mewn un pecyn cymorth unigol yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Bydd modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn integreiddio gwasanaethau ar lefel leol a chenedlaethol.<br><br>**Defnyddio technoleg i hybu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel**<br><br>Gyda thechnolegau newydd yn dod i'r amlwg bydd hyn yn caniatáu i ni symud cydbwysedd ein systemau iechyd a gofal tuag at ganfod ac ymyrryd yn gynt, wedi'u cynllunio i helpu i atal salwch ac ymestyn annibyniaeth. | | | | |
| 3. | Cymru Iachach – Ymateb y Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg | Ymateb Iechyd y Geg i'r weledigaeth sy'n cael ei chyflwyno yn "Cymru Iachach" o dan yr egwyddor bod cleifion a'r cyhoedd wrth galon popeth a wnawn. | Ysgogiad polisi allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r gwasanaethau hefyd wedi'u gosod o dan dair thema<br>1. Cynnydd mewn atal<br>2. Gwasanaethau deintyddol sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol<br>3. Datblygu timau a rhwydweithiau deintyddol<br>Nododd Llywodraeth Cymru bum blaenoriaeth allweddol ar gyfer trawsnewid deintyddiaeth<br>• Mynediad amserol at ofal deintyddol y GIG sy'n canolbwyntio ar atal<br>• Newid parhaus ac ar sail system gyfan wedi'i ategu gan ddiwygio contractau<br>• Timau sydd wedi'u hyfforddi, sy'n cael eu cefnogi ac sy'n darparu gofal o ansawdd yn seiliedig ar werth<br>• Gwybodaeth a thystiolaeth ym maes iechyd y geg yn ysgogi gwelliant<br>• Gwell iechyd a lles poblogaethau | | | | |
| 4. | Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon:<br>Dechrau Ffres: Ymchwiliad i Ddeintyddiaeth yng Nghymru | Ymchwiliad yn edrych ar y contractau deintyddol ac orthodontig, ynghyd â materion ehangach y gweithlu yn y proffesiwn deintyddol gan gynnwys lleoedd hyfforddi a recriwtio, ac yn benodol:<br>• craffu ar waith Llywodraeth Cymru i ddiwygio contractau deintyddol<br>• ystyried sut mae'r "arian a gaiff ei adfachu" gan fyrddau iechyd yn cael ei ddefnyddio<br>• ystyried materion yn ymwneud â hyfforddi, recriwtio a chadw deintyddion yng Nghymru | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • ystyried darpariaeth gwasanaethau orthodonteg<br>• ystyried effeithiolrwydd rhaglenni gwella iechyd y geg lleol a chenedlaethol ar gyfer plant a phobl ifanc | | | | |
| 5. | Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Dechrau Ffres: Ymchwiliad i ddeintyddiaeth | Ymateb Llywodraeth Cymru i chwe argymhelliad a wnaed yn adroddiad ymchwiliad Dechrau Ffres, lle y gwnaethon nhw dderbyn yr holl argymhellion a wnaed. | Ysgogiad polisi allweddol ac yn mynd i'r afael â'r angen am y cynllun gweithlu strategol | X | | |
| 6. | Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Deintyddiaeth | Ym mis Mawrth 2022 cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i wneud gwaith dilynol ar "Dechrau Ffres: Ymchwiliad i Ddeintyddiaeth", gan ganolbwyntio'n benodol ar a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i bontio'r bwlch mewn anghydraddoldebau iechyd y geg ac ailadeiladu gwasanaethau deintyddiaeth yng Nghymru yn dilyn pandemig COVID-19 ac yng nghyd-destun costau byw cynyddol.<br>Roedd yn casglu tystiolaeth yn ysgrifenedig a chynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid | Ysgogiad polisi allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ac yn cynnal cyfweliadau â phobl ledled Cymru am eu profiadau o faterion deintyddiaeth.<br><br>Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar<br><br>• I ba raddau y mae mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn parhau i fod yn gyfyngedig a'r ffordd orau i ddal i fyny â'r ôl-groniad mewn gofal deintyddol sylfaenol, ysbytai a gwasanaethau orthodontig.<br>• Gwell gwybodaeth am iechyd y geg, gan gynnwys y nifer sy'n derbyn gofal deintyddol sylfaenol y GIG ledled Cymru yn dilyn ailddechrau gwasanaethau, a'r angen am ymgyrch wedi'i hariannu gan y llywodraeth i roi sicrwydd i'r cyhoedd bod practisau deintyddol yn amgylcheddau diogel.<br>• Cymhellion i recriwtio a chadw deintyddion y GIG, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd â lefelau uchel o angen.<br>• Anghydraddoldebau iechyd y geg, gan gynnwys ailddechrau rhaglen Cynllun Gwên a'r posibilrwydd o'i hehangu i blant 6-10 oed; gwell dealltwriaeth o anghenion iechyd y geg ymhlith pobl 12-21 oed; capasiti gwasanaethau deintyddol yn y cartref i bobl hŷn a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal (rhaglen 'Gwên am Byth'); ac i ba raddau y mae cleifion (yn enwedig cleifion risg isel) yn dewis gweld ymarferwyr preifat, ac a oes risg o greu gwasanaeth iechyd deintyddol dwy haen.<br>• Lles a morâl y gweithlu. | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Y posibilrwydd o ehangu'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol ymhellach.<br>• Gwariant Llywodraeth Cymru ar ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru, gan gynnwys buddsoddi mewn arferion awyru a pharatoi at y dyfodol.<br>• Effaith yr argyfwng costau byw ar ddarpariaeth a mynediad at wasanaethau deintyddiaeth yng Nghymru<br><br>Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, gwnaed 16 o argymhellion:<br><br>**Argymhelliad 1**<br><br>Oni bai bod yr amgylchiadau'n eithriadol, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ymgynghori ynghylch newidiadau posibl i'r contract deintyddol yn cael ei chynnal o leiaf chwe mis cyn y bwriedir cyflwyno'r diwygiadau eu hunain.<br><br>**Argymhelliad 2**<br><br>Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r ddarpariaeth o apwyntiadau cleifion i sicrhau bod y cydbwysedd cywir yn cael ei daro rhwng atal, gofal sy'n seiliedig ar anghenion, darpariaeth ddeintyddol frys a gweld cleifion newydd, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn cyn gwneud unrhyw newidiadau pellach i'r contract deintyddol.<br><br>**Argymhelliad 3** | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer creu rhestr aros ganolog, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd 2023. Fel cam dros dro, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn creu rhestr aros ganolog ar gyfer ei ardal erbyn diwedd 2023.<br>**Argymhelliad 4**<br>Er mwyn lleihau anghydraddoldebau, erbyn diwedd 2023, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn rhoi gwybodaeth i bobl am sut i ymuno â rhestr aros ar gyfer gwasanaethau deintyddol, a hynny mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd, ac nid ar-lein yn unig.<br>**Argymhelliad 5**<br>Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion ar gyfer casglu data drwy ddeintyddion y GIG er mwyn symleiddio'r broses a lleihau dyblygu gwaith. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2023, a dylid rhoi gwybod i ni beth yw'r canfyddiadau erbyn mis Mawrth 2024 fan bellaf.<br>**Argymhelliad 6** | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Erbyn diwedd tymor yr haf 2023, dylai Llywodraeth Cymru roi cynllun clir ac amserlenni i'r Pwyllgor hwn yn dangos sut y bydd yn cyflwyno un system feddalwedd i'w defnyddio gan holl ddeintyddion Cymru, a dylai roi diweddariadau bob chwe mis am y cynnydd a wneir. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys manylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â phractisau preifat yn hyn o beth.<br>**Argymhelliad 7**<br>Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddweud wrthym beth mae'n ei wneud i feithrin dealltwriaeth glir o'r rhwystrau sy'n atal grwpiau sy'n agored i niwed rhag defnyddio gwasanaethau deintyddol, ble yn union mae'r anghydraddoldebau, ac a oes angen rhagor o ymchwil yn y maes hwn.<br>**Argymhelliad 8**<br>Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth ar gyfer y gweithlu deintyddol yn adlewyrchu'r dyheadau newydd a'r angen am fwy o gymysgedd sgiliau yn y gweithlu, a dylid cyhoeddi'r strategaeth hon cyn gynted â phosibl. Gan fod disgwyl i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gael y drafft ym mis Rhagfyr 2022, dylid cyhoeddi'r strategaeth derfynol erbyn gwanwyn 2023 fan bellaf.<br>**Argymhelliad 9** | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i alluogi therapyddion deintyddol i gael rhif perfformiwr, a dylai roi amserlen i ni ar gyfer gwneud hyn.<br>**Argymhelliad 10**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer sefydlu ysgol ddeintyddol yn y gogledd a dylai roi adroddiad i ni am ddichonoldeb hyn erbyn mis Gorffennaf 2024.<br>**Argymhelliad 11**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru roi sicrwydd bod iechyd y geg yn cael ei integreiddio mewn polisïau ataliol fel Pwysau Iach, Cymru Iach, a dylai roi enghreifftiau o ble a sut mae hyn yn cael ei wneud.<br>**Argymhelliad 12**<br>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Gwên yn cael ei adfer i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig cyn gynted â phosibl, gan roi diweddariad i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd tymor yr haf 2023.<br>**Argymhelliad 13**<br>Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith ymchwil i ganfod a ddylid darparu rhaglenni iechyd y geg i blant hyd at 12 oed mewn ysgolion ym mhob bwrdd iechyd, a hynny fel cam ataliol.<br>**Argymhelliad 14** | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer ehangu'r rhaglen Gwên am Byth i leoliadau preswyl eraill, fel cartrefi gofal i bobl iau sy'n agored i niwed, tai gwarchod a thai gofal ychwanegol, gan adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd 2023.<br>**Argymhelliad 15**<br>Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i werth cyflwyno fflworid i'r systemau dŵr cyhoeddus o safbwynt iechyd y cyhoedd, ynghyd ag ymchwil i agweddau pobl at hynny. Dylai ymrwymo i gyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil hwn.<br>**Argymhelliad 16**<br>Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a yw'r lefelau cyllido presennol yn ddigonol i'r gwasanaeth gyflawni'r hyn y mae angen iddo'i gyflawni er mwyn lleihau'r ôl-groniad, a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch hyn erbyn diwedd tymor yr haf 2023. | | | | |
| 7. | Llywodraeth Cymru:<br>Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Ymateb Llywodraeth Cymru i'r 16 argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn ei ymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru. Chwefror 2023.<br>Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion fel a ganlyn:<br>Argymhelliad 1: Derbyn yn Rhannol<br>Argymhelliad 2: Derbyn yn Rhannol | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Argymhelliad 3: Derbyn<br>Argymhelliad 4: Derbyn yn Rhannol<br>Argymhelliad 5: Derbyn<br>Argymhelliad 6: Gwrthod<br>Argymhelliad 7: Derbyn<br>Argymhelliad 8: Derbyn<br>Argymhelliad 9: Derbyn<br>Argymhelliad 10: Derbyn<br>Argymhelliad 11: Derbyn<br>Argymhelliad 12: Derbyn<br>Argymhelliad 13: Derbyn<br>Argymhelliad 14: Derbyn<br>Argymhelliad 15: Gwrthod<br>Argymhelliad 16: Derbyn | | | | |
| 8. | Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol | Er mwyn cefnogi'r weledigaeth sy'n cael ei chyflwyno yn *'Cymru Iachach'*, datblygwyd Model Gofal Sylfaenol i Gymru a chytunwyd ar 3 blaenoriaeth allweddol:<br>• Sefydlu ffrydiau gwaith gofal sylfaenol penodol i Gymru gyfan<br>• Mynd i'r afael â gweithio di-dor mewn byrddau iechyd a gyda phartneriaid<br>• Diwygio'r contract gofal sylfaenol | **Blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru** | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Er mwyn cefnogi'r flaenoriaeth gyntaf datblygwyd y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol ac mae ganddi 6 ffrwd waith allweddol:<br>1. Atal a lles<br>2. Model 24/7<br>3. Data a thechnoleg ddigidol<br>4. Gwasanaethau'r gweithlu a datblygiad sefydliadol<br>5. Cyfathrebu ac ymgysylltu<br>6. Trawsnewid a'r weledigaeth ar gyfer clystyrau<br>Mae'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn disgrifio sut y bydd gofal yn cael ei ddarparu'n lleol, nawr ac yn y dyfodol, fel rhan o ddull system gyfan i gyflawni Cymru Iachach. | | | | |
| 9. | Llywodraeth Cymru: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu: Mynd i'r Afael â Heriau Gweithlu GIG Cymru | Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn ymateb i'r galwadau ychwanegol sylweddol ar ein gweithlu ar draws GIG Cymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn adeiladu ar y cyfeiriad strategol yn 'Cymru Iachach' a bydd yn ehangu ac yn cyflymu dilyniant mewn rhai meysydd.<br>Mae'r cynllun yn amlygu nifer o gamau gweithredu y mae angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pwysau mwyaf brys a rhai mwy hirdymor. Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn wedi'u fframio o amgylch tri maes: llenwi bylchau yn y gweithlu, denu cymorth, a datblygu a chynllunio ar gyfer y dyfodol. | Ysgogiad polisi allweddol ac yn mynd i'r afael â'r angen am y cynllun gweithlu strategol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn ymateb i'r galwadau ychwanegol sylweddol ar ein gweithlu ar draws GIG Cymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn adeiladu ar y cyfeiriad strategol yn 'Cymru Iachach' a bydd yn ehangu ac yn cyflymu dilyniant mewn rhai meysydd. Mae'r cynllun yn amlygu nifer o gamau gweithredu y mae angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pwysau mwyaf brys a rhai mwy hirdymor. Mae'r camau gweithredu yn y Cynllun hwn wedi'u fframio o amgylch tri maes: llenwi bylchau yn y gweithlu, denu cymorth, a datblygu a chynllunio ar gyfer y dyfodol. | | | | |
| 10. | Llywodraeth Cymru:<br>Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol | Cylchlythyr Iechyd Cymru sy'n darparu canllawiau wedi'u diweddaru ar rôl y gwasanaeth deintyddol cymunedol, gan gynnwys ehangu swyddi swyddogion deintyddol cyflogedig, i gynorthwyo cymunedau lleol sydd â mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at wasanaethau deintyddol cyffredinol sydd fel arfer yn cael eu darparu gan fodel y contractwr annibynnol.<br>Dylid ystyried y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol fel gwasanaeth deintyddol integredig sydd â rôl amrywiol a hyblyg. Ni ddylid ei ystyried yn wasanaeth gofal sylfaenol yn unig. Bydd gwasanaeth deintyddol cymunedol cryf yn darparu'r holl wasanaethau sydd eu hangen ar gyfer ei boblogaeth leol a gall hyn gynnwys gwasanaethau deintyddol ymgynghorol, arbenigol, canolraddol a chyffredinol arferol. | Ysgogiad polisi allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11. | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi uchelgais ar gyfer Cymru lewyrchus, gydnerth, gynaliadwy, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Bydd datblygu modelau gofal a chymorth newydd a chefnogi a datblygu gweithlu sydd â'r sgiliau, y wybodaeth, y profiadau a'r cymwysterau cywir, ac sy'n cael eu defnyddio mewn ymateb i feysydd angen a nodwyd, yn hanfodol i gyfrannu at gyflawni'r uchelgeisiau hyn. | Deddfwriaeth allweddol Llywodraeth Cymru | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. | Llywodraeth Cymru / GIG Cymru / Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru: Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru | Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio technoleg a mynediad gwell at wybodaeth i fod o gymorth i wella iechyd a lles pobl Cymru. Mae'n disgrifio Cymru, lle mae gan ddinasyddion fwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u gofal cymdeithasol, lle maen nhw'n medru cael mynediad at eu gwybodaeth a rhyngweithio â gwasanaethau ar-lein mor hawdd ag y maen nhw â sectorau cyhoeddus eraill neu agweddau eraill ar eu bywydau, gan hyrwyddo tegwch rhwng y rhai sy'n darparu a'r rheiny sy'n defnyddio ein gwasanaethau, fel sy'n cyd-fynd â gofal iechyd darbodus a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Mae'n disgrifio Cymru lle mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael mynediad at yr un offerynnau digidol yn y gweithle ag y maen nhw'n eu mwynhau gartref neu y bydden nhw mewn diwydiannau eraill, fel eu bod yn medru canolbwyntio ar ddarparu gofal effeithlon o safon uchel a diogel a chynllunio ar gyfer newid yn y gweithlu ac yn y gwasanaeth gyda seilwaith wedi'i alluogi gan y cyfryngau digidol. | Datblygu gweithlu deintyddol sy'n ddigidol gymwys a hyderus | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13. | Y Chwe Nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng | Mae'r chwe nod, a gyd-ddyluniwyd gan arweinwyr clinigol a phroffesiynol, yn cwmpasu'r llwybr gofal brys a gofal mewn argyfwng ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yn ein Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 i ddarparu gofal iechyd effeithiol, cynaliadwy ac o ansawdd uchel mor agos at y cartref â phosibl, ac i wella mynediad at wasanaethau ac integreiddio. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar gryfhau dulliau cyfeirio, dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle derbyn unigolyn i'r ysbyty, ymateb cyflym i anghenion gofal brys, arferion rhyddhau da ac atal aildderbyn i'r ysbyty. Mae'r chwe nod yn cynnwys:<br><br>Cyfeirio – (cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn y tro cyntaf)<br><br>Gwell mynediad at ddarpariaeth ddeintyddol frys (Ebrill 2023)<br><br>Gweithredu gwasanaeth gofal brys 24/7 sy'n integreiddio meddygon teulu (o fewn oriau a'r tu allan i oriau), fferylliaeth, gwasanaethau deintyddol ac optometreg yn ogystal â threfnu slotiau cyrraedd mewn unedau mân anafiadau, adrannau argyfwng neu wasanaethau ysbytai gofal argyfwng dydd (Ebrill 2025) | Rhaglen genedlaethol allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14. | Fframwaith cynllunio GIG Cymru 2023-24 | Cyhoeddwyd y fframwaith cynllunio ar gyfer 2023/24 ym mis Rhagfyr 2022. Mae'n nodi blaenoriaethau lefel uchel ar gyfer GIG Cymru ar draws y 6 maes canlynol:<br>• Oedi wrth drosglwyddo gofal<br>• Gofal sylfaenol a chymunedol<br>• Gofal brys a gofal mewn argyfwng<br>• Gofal a gynlluniwyd ac adferiad<br>• Canser<br>• Iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion.<br><br>Mae'r ffocws ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol ar well mynediad ar draws meddygaeth deulu, deintyddiaeth, optometreg a fferylliaeth. Mae hyn yn cynnwys rhagnodi annibynnol a mwy o hunanatgyfeirio at ystod ehangach o weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn y gymuned, gan gynnwys adsefydlu, iechyd meddwl ac awdioleg i ddarparu mwy o opsiynau i gleifion. Mae'r canllawiau'n nodi sut mae angen i Gynllunio Tymor Canolig Integredig, Cynllunio ar Draws Clystyrau a Chynlluniau Ardal y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyd-fynd â'i gilydd. | | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15. | Symud Ymlaen i Wella Iechyd y Geg a Gwasanaethau Deintyddol yng Nghymru | Mae'n nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella iechyd y geg a deintyddiaeth yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig. Mae'n amlinellu blaenraglen waith a fydd yn llywio diweddariad o Law yn Llaw at Iechyd: Cynllun Cenedlaethol Cymru ar gyfer Iechyd y Geg, 2013 - 2018 | Polisi Allweddol | X | | |
| 16. | Llywodraeth Cymru:<br>Gweithlu Gofal Sylfaenol wedi'i Gynllunio i Gymru | Mae'r cynllun hwn yn nodi pedwar prif faes lle mae angen gweithredu o ran gofal sylfaenol yng Nghymru:<br>1. Gosod y sylfeini cywir ar gyfer dull mwy cadarn o gynllunio'r gweithlu – sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gweithlu o'r maint cywir, gyda'r sgiliau cywir ar yr adeg gywir<br>2. Cefnogi datblygiad parhaus clystyrau gofal sylfaenol a'r broses o rannu arferion gorau<br>3. Buddsoddi yn natblygiad y gweithlu gofal sylfaenol ehangach<br>4. Sefydlogi rhannau allweddol o'r gweithlu presennol (proffesiynau meddygaeth deulu a nyrsio) | Polisi Allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17. | Llywodraeth Cymru:<br>Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Iechyd a Gofal sy'n Dysgu | Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol yn nodi gweledigaeth gydlynol ar gyfer datblygu gwasanaethau clinigol y GIG yn strategol ac yn lleol.<br>Mae'n seiliedig ar y dull gydol oes o ddarparu gwasanaethau ac mae'n cyd-fynd â'r baich clefydau y mae'r boblogaeth yn ei wynebu.<br>Ei fwriad yw gwella canlyniadau cleifion a chefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau clinigol cadarn.<br>Mae'n adeiladu ar ganfyddiadau'r Adolygiad Seneddol a'r cyfeiriad a nodir yn Cymru Iachach ac mae wedi elwa o edrych ar brofiad rhyngwladol ac ymgysylltu â chydweithwyr yn y GIG.<br>Bydd y Fframwaith wrth galon ein system gynllunio. | Polisi Allweddol | X | | |
| 18. | Llywodraeth Cymru: Cymru o Blaid Pobl Hŷn – Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio | Mae'r Strategaeth newydd ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio yn ehangach ei chwmpas na strategaethau blaenorol ar gyfer pobl hŷn.<br>Mae'r cyfeiriad arfaethedig yn nodi:<br>• Ein Gweledigaeth yw Cymru o blaid pobl hŷn sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.<br>• Rydym eisiau creu Cymru lle mae pawb yn edrych ymlaen at heneiddio.<br>• Cymru lle y gall unigolion gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a | Polisi Allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | theimlo'n hyderus y bydd cymorth ar gael, a hynny'n gyfleus, os bydd ei angen.<br>• Cymru lle nad yw rhagfarn ar sail oedran yn cyfyngu ar botensial nac yn effeithio ar ansawdd y gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu cael.<br>• Yn y pen draw, rydym eisiau bod yn genedl sy'n dathlu oedran ac, yn unol ag Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, bod yn genedl sy'n cynnal annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunanfoddhad ac urddas pobl hŷn bob amser.<br>Er mwyn sbarduno cynnydd tuag at y weledigaeth hon mae pedwar nod sy'n ganolbwynt i'r strategaeth sy'n cyd-fynd â phedwar maes Mynegai Age Watch y DU.<br>• Gwella llesiant<br>• Gwella gwasanaethau lleol ac amgylcheddau<br>• Meithrin a chynnal galluogrwydd pobl<br>• Trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran<br>Mae tair thema drawsbynciol sy'n berthnasol ar draws y ddogfen gyfan:<br>• Creu Cymru o blaid pobl hŷn<br>• Blaenoriaethu gwaith atal<br>• Dull sy'n seiliedig ar hawliau | | | | |
| 19. | Llywodraeth Cymru: | Daeth y ddyletswydd ansawdd, fel rhan o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, i rym ar 1 Ebrill 2023. | Deddfwriaeth allweddol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023 | Mae'n gyfrwng ar gyfer gwella a diogelu iechyd, gofal a lles poblogaeth Cymru nawr ac yn y dyfodol. Ei nod yw rhoi llais cryfach i ddinasyddion a gwella atebolrwydd gwasanaethau i ddarparu profiad ac ansawdd gofal gwell. Bydd gwneud hynny'n cyfrannu at wlad iach a mwy ffyniannus. Bwriedir i'r Ddeddf fod o fudd cadarnhaol i bawb yng Nghymru, gan gefnogi diwylliant a'r amodau sydd eu hangen i ysgogi gwelliannau mewn gofal iechyd.<br><br>Negeseuon Allweddol:<br>• Prif ddiben y Ddeddf yw ail-fframio ac ehangu'r ddyletswydd ansawdd a nodwyd gyntaf yn Neddf 2003<br>• Diddymir y ddyletswydd ansawdd a nodir yn adran 45(1) o Ddeddf 2003 a'i disodli gan ddyletswydd ddiwygiedig i sicrhau ansawdd mewn gwasanaethau iechyd yn Neddf 2006<br>• Mae'r ddyletswydd ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag iechyd gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd<br>• Mae'r ddyletswydd ddiwygiedig hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gyflawni eu holl swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau gwelliant yn ansawdd gwasanaethau iechyd<br>• Mae'r Ddeddf yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 47 ac adran 70 o Ddeddf 2003 fel bod unrhyw safonau a ddyroddir o dan Ddeddf 2003 yn cael eu hystyried gan | Llywodraeth Cymru | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gyrff y GIG wrth gyflawni'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig yn Neddf 2006, a bod gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o gynnal adolygiadau o'r camau a gymerwyd gan gorff y GIG at ddibenion cyflawni'r ddyletswydd ansawdd ddiwygiedig. Mae'r swyddogaeth olaf wedi'i dirprwyo i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).<br>• Mae'r Safonau Iechyd a Gofal (2015) a gyhoeddwyd o dan adran 47 o Ddeddf 2003 yn cael eu tynnu'n ôl a'u disodli gan y chwe maes ansawdd a'r pum galluogwr ansawdd i adlewyrchu'r berthynas anorfod rhwng y ddyletswydd ansawdd a'r safonau. | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20. | Llywodraeth Cymru:<br>Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru: | Bydd y Cynllun yn gweithredu fel y fframwaith ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ yn y llywodraeth a gyda'n partneriaid. Mae'n nodi camau pendant y byddwn yn eu cymryd i gryfhau cydraddoldeb i bobl LHDTC+, herio gwahaniaethu, a chreu cymdeithas lle mae pobl LHDTC+ yn ddiogel i fyw a charu yn ddiffuant, yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.<br>Mae'r weledigaeth yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru, ar gyfer pawb sy'n LHDTC+, yn:<br>• cryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol<br>• gwneud Cymru yn lle mwy diogel<br>• gwneud Cymru yn Genedl Noddfa i fudwyr LHDTC+<br>• gwella canlyniadau gofal iechyd<br>• sicrhau bod addysg yng Nghymru yn gynhwysol<br>• gwella cynhwysiant a chyfranogiad ym mhob rhan o fywyd<br>• gwrando ar ein cymunedau LHDTC+ a gweithio gyda nhw<br>• amddiffyn a hyrwyddo hawliau pobl draws ac anneuaidd | Cysylltu â ffurf a chyflenwad gweithlu'r dyfodol ar gyfer GIG Cymru | X | | |
| 21. | Llywodraeth Cymru:<br>Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru: | Yn 2020, dechreuodd gwaith ar gynllun gweithredu newydd ar gyfer cydraddoldeb hiliol, yn dilyn cais am gynllun o'r fath gan sefydliadau llawr gwlad a gynrychiolir ar Fforwm Hil Cymru ac eraill sy'n ein cefnogi yn y maes gwaith hwn. Ond ym mis Mawrth | Cynllun strategol i helpu i ddileu hiliaeth systematig a | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymru wrth-hiliol | 2020, daeth y gwaith i ben oherwydd pandemig COVID-19.<br><br>Wedyn, ym mis Mai 2020, syfrdanwyd pobl ledled y byd gan lofruddiaeth George Floyd. Mewn gwahanol ffyrdd, mae'r ddau ddigwyddiad hyn wedi bwrw goleuni ar yr hiliaeth systemig a sefydliadol a wynebir gan gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (y cyfeirir atyn nhw fel pobl / grwpiau ethnig lleiafrifol o hyn ymlaen), yng Nghymru ac mewn mannau eraill.<br><br>Yn ystod haf 2020, gofynnodd Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am Gydraddoldeb, i swyddogion ddatblygu Cynllun Gweithredu | sefydliadol yng Nghymru.<br><br>Cysylltu â ffurf a chyflenwad gweithlu'r dyfodol ar gyfer GIG Cymru | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cydraddoldeb Hiliol (y Cynllun) "uchelgeisiol a radical".<br><br>Mae'r weledigaeth yn nodi bod Cymru'n wrth-hiliol erbyn 2030.<br><br>Y Diben – Gwneud newidiadau ystyrlon a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth.<br><br>Gwerthoedd – Bod yn agored ac yn dryloyw, canolbwyntio ar hawliau a chynnwys profiadau bywyd wrth ddatblygu polisi.<br><br>Nodau – Meysydd Polisi<br><br>• Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth<br>• Tai a llety<br>• Incwm a chyflogadwyedd<br>• Partneriaeth gymdeithasol a gwaith teg<br>• Entrepreneuriaeth<br>• Iechyd<br>• Gofal cymdeithasol<br>• Addysg, gan gynnwys addysg uwch<br>• Troseddu a chyfiawnder<br>• Diwylliant, treftadaeth a chwaraeon<br>• Llywodraeth leol<br>• Y Gymraeg<br>• Yr amgylchedd | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 22. | Llywodraeth Cymru:<br>Cynllun Sero Net | Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu ein hymrwymiad i ymwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn. Mae hyn yn dilyn datganiad Llywodraeth Cymru o Argyfwng Hinsawdd yn 2019.<br>Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn chwarae ein rhan wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac yn cyd-fynd ag uchelgais Gweinidogion Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn sero net erbyn 2030. Mae hefyd yn dangos ein cyflawniad yn erbyn gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ein cyfarwyddo i ystyried problemau parhaus hirdymor fel tlodi, anghydraddoldebau iechyd, a'r newid yn yr hinsawdd.<br>Nod y cynllun:<br>• Mae gan Lywodraeth Cymru ran ganolog i'w chwarae o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yng Nghymru.<br>• Rydym yn dymuno arwain drwy esiampl a bod â'r uchelgais o sicrhau sero net fel sefydliad erbyn 2030, gan gyfrannu at darged sero net cyfunol Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2030 drwy wneud hynny.<br>• Mae'r Cynllun Strategol hwn yn dod â thystiolaeth o bob rhan o Lywodraeth Cymru ynghyd i amlinellu ein mentrau datgarboneiddio blaenoriaeth. | Dogfen allweddol ac ysgogiad strategol i gefnogi'r uchelgais o gyflawni sero net gyda ffactorau dylanwadol ar ffurf a chyflenwad gweithlu'r GIG yn y dyfodol | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 23. | Llywodraeth Cymru:<br>Cymru gryfach, decach, a gwyrddach: cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau | Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Cymru lle gall unigolion o bob oedran gael addysg o safon uchel, gyda swyddi i bawb, lle gall busnesau ffynnu mewn economi sero net sy'n hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb.<br>Mae'r cynllun ar gyfer cyflogadwyedd a sgiliau yn dangos blaenoriaethau polisi a buddsoddi clir, yn mireinio ffocws ein gwaith a gweithgarwch partneriaid ar gamau gweithredu dros dymor y Llywodraeth hon a fydd yn gadael gwaddol cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.<br>Blaenoriaethau allweddol:<br>• Pobl ifanc yn gwireddu eu potensial<br>• Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd<br>• Hyrwyddo gwaith teg i bawb<br>• Cefnogi pobl sydd â chyflwr iechyd hirdymor i weithio<br>• Meithrin diwylliant dysgu am oes | Dogfen allweddol ac ysgogiad strategol i helpu pobl i uwchsgilio, cael mynediad at waith teg a ffynnu, ar gyfer Cymru fwy cyfartal.<br><br>Cysylltu â ffurf gweithlu'r dyfodol ar gyfer GIG Cymru | X | | |
| 24. | Cyfrifiad 2021<br>Y Swyddfa Ystadegau Gwladol | Dangosodd y data ar gyfer iechyd cyffredinol yng Nghymru gynnydd yng nghyfran y bobl a nododd fod eu hiechyd yn dda iawn neu'n dda, a gostyngiad yn y categorïau eraill.<br>Hyd yn hyn, mae canfyddiadau cychwynnol Cyfrifiad 2021 wedi nodi twf bychan ym mhoblogaeth Cymru (cynnydd o 1.4% i 3,107,500). | Amlygu newidiadau o fewn y boblogaeth sy'n helpu i ragweld a chynllunio modelau | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mae rhai o'r byrddau iechyd, fel Betsi Cadwaladr, Hywel Dda a Phowys, yn dangos ymchwydd yn y poblogaethau hŷn; mae Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe yn dangos cyfrannau uwch yn y bandiau oedran 20-24, a all fod oherwydd poblogaethau myfyrwyr; ac mae rhai, fel Aneurin Bevan, Cwm Taf Morgannwg a Phowys yn dangos bylchau yn y poblogaethau iau, sy'n dynodi bylchau posibl yn y gweithlu sydd i ddod.<br><br>Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn dangos y bydd llai o bobl ar gael i ymuno â'r gweithlu ar draws y GIG a Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn hefyd yn amlygu'r galwadau newidiol ac, yn fwyaf tebygol, mwy sylweddol ar y sector. | staffio effeithiol.<br><br>Cysylltu â ffurf a chyflenwad gweithlu'r dyfodol ar gyfer GIG Cymru | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25. | Llywodraeth Cymru: Teithio i Iechyd Gwell: Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr | Nod y canllawiau hyn yw mynd i'r afael â materion a phryderon ynghylch darparu gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd i Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig. Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau ethnig cydnabyddedig sy'n cael eu gwarchod gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, i roi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig.<br>Mae rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn golygu:<br>• Dileu neu leihau i'r eithaf anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.<br>• Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.<br>Bydd angen cymryd y camau hyn i sicrhau mynediad teg at iechyd a gofal iechyd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. | | X | | |
| 26. | Llywodraeth Cymru:<br>Canllawiau ar Weithredu'r Polisi | Nod y canllawiau hyn yw mynd i'r afael â'r materion a'r pryderon sy'n codi o ran darpariaeth gwasanaethau sylfaenol ac eilaidd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.<br>Mae'n cynnig cyfarwyddyd a thempled i fyrddau iechyd i'w galluogi i ddatblygu protocolau, polisïau ac arferion lleol; a hynny yn seiliedig ar brosesau, | | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Darpariaeth iechyd a llesiant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches | gweithdrefnau a threfniadau gweinyddol a llywodraethu cadarn.<br>Yn wahanol i ofal iechyd, nid yw'r agenda lloches a mewnfudo yn fater wedi'i ddatganoli yng Nghymru ac felly Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdani.<br>Efallai fod yna rywfaint o debygrwydd rhwng y boblogaeth ceiswyr lloches â grwpiau lleiafrifoedd eraill, er bod ganddynt anghenion mwy penodol sy'n aml yn gysylltiedig â'r rheswm am eu cais am loches neu'n codi ar ôl y cais, fel profiad o drawma. | | | | |
| 27. | GIG Lloegr:<br>NHS Long Term Workforce Plan | Cynllun gweithlu cynhwysfawr GIG Lloegr ar gyfer y GIG, yn rhoi staffio ar sylfaen gynaliadwy a gwella gofal cleifion. Mae'n canolbwyntio ar gadw'r dalent bresennol a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg newydd ynghyd â'r ymgyrch recriwtio fwyaf yn hanes y gwasanaeth iechyd.<br>Mae'n gosod cyfeiriad strategol ar gyfer y tymor hir, yn ogystal â chamau gweithredu pendant a phragmatig i'w cymryd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn y tymor byr i ganolig i fynd i'r afael â heriau presennol y gweithlu. Mae'r camau gweithredu hynny'n perthyn i dri maes blaenoriaeth clir:<br>• Hyfforddi<br>Cynyddu addysg a hyfforddiant yn sylweddol i'r lefelau uchaf erioed, yn ogystal â chynyddu prentisiaethau a llwybrau eraill i rolau | Er mai hwn yw cynllun Gweithlu'r GIG gan GIG Lloegr, bydd elfennau ohono sy'n berthnasol i gynllun gweithlu strategol GIG Cymru ar gyfer gwasanaethau deintyddol. | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | proffesiynol, er mwyn darparu mwy o ddeintyddion.<br>• Cadw<br>Sicrhau ein bod yn cadw mwy o'r staff sydd gennym yn y gwasanaeth iechyd drwy gefnogi pobl yn well drwy gydol eu gyrfaoedd, rhoi hwb i'r hyblygrwydd a gynigwn i'n staff i weithio mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw ac sy'n gweithio i gleifion, a pharhau i wella'r diwylliant a'r arweinyddiaeth ar draws sefydliadau'r GIG.<br>• Diwygio<br>Gwella cynhyrchiant drwy weithio a hyfforddi mewn ffyrdd gwahanol, adeiladu timau ehangach sydd â sgiliau hyblyg, newid addysg a hyfforddiant i ddarparu mwy o staff mewn rolau a gwasanaethau lle mae eu hangen fwyaf, a sicrhau bod gan staff y sgiliau cywir i fanteisio ar dechnoleg newydd sy'n rhyddhau amser clinigwyr i ofalu, cynyddu hyblygrwydd o ran lleoli staff, a darparu'r gofal sydd ei angen ar gleifion yn fwy effeithiol ac effeithlon. | | | | |
| 28. | [Llywodraeth Cymru]() | Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sail pedair gwlad i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd nesaf o 2024, ond ar gyfer 2023-24 mae | Cysylltu â ffurf a chyflenwad | X | | |

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Dogfen Allweddol</th><th>Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu</th><th>Perthnasedd i'r cynllun gweithlu</th><th>Strategaeth</th><th>Adolygiad llenyddiaeth</th><th>Y ddau</th></tr>
<tr><td></td><td>Cylchlythyr Iechyd Cymru: Nodau Gwella Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) a Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) 2023-24</td><td>angen canolbwyntio ar barhau i weithio tuag at nodau'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd cyfredol.<br><br>Yng Nghymru, y nod yw mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd drwy ostwng baich heintiau, gwella triniaethau a gwneud y defnydd gorau posibl o feddyginiaethau gwrthficrobaidd mewn pobl.<br><br>Uchelgeisiau'r Cynllun Cenedlaethol yw:<br><br>Optimeiddio'r defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd<br><br>• Gostyngiad o 25% yn y defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd yn y gymuned o linell sylfaen 2013<br>• Gostyngiad o 10% yn y defnydd o wrthfiotigau “wrth gefn” a “gwylio” mewn ysbytai o linell sylfaen 2017<br><br>O fewn Gofal Sylfaenol mae tri nod gwella:<br><br>1. Sicrhau gostyngiad o 25% o leiaf yn y defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd yn y gymuned o linell sylfaen 2013/14<br>2. Dylai presgripsiynwyr ddogfennu'r codau dynodi a'r codau diagnosis clinigol priodol ar gyfer pob presgripsiwn gwrthficrobaidd<br>3. Dylai clystyrau gofal sylfaenol sicrhau y dylai achosion deintyddol brys gael eu gweld gan wasanaethau deintyddol yn hytrach na Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol</td><td>gweithlu'r dyfodol</td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 29. | GIG Digidol - Dentists' Working Patterns, Motivation and Morale - 2018/19 and 2019/20 | Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r brif wybodaeth am batrymau gwaith gwasanaethau deintyddol, cymhelliant, a morâl ar gyfer deintyddion gofal sylfaenol hunangyflogedig yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ar gyfer 2018/19 a 2019/20.<br>Caiff gwybodaeth ei chyflwyno am oriau wythnosol cyfartalog, wythnosau o wyliau blynyddol, sut caiff amser ei rannu rhwng GIG/Gwasanaeth Iechyd a deintyddiaeth breifat, a gwaith clinigol ac anghlinigol, yn ogystal â mesurau cymhelliant a morâl.<br>Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys:<br>Mae bron i ddwy ran o dair o Brif Ddeintyddion a dros hanner yr holl Ddeintyddion Cyswllt ar draws y DU yn aml yn meddwl am adael deintyddiaeth.<br>Y ffactorau mwyaf cyffredin sy'n cyfrannu at forâl isel yw costau cynyddol a/neu ostyngiad mewn incwm a'r risg o ymgyfreitha a chost ffioedd indemniad.<br>Roedd dros draean o Ddarparwyr-Gyflawnwyr yng Nghymru yn anghytuno â'r gosodiad eu bod yn teimlo'n dda am eu swydd fel deintydd.<br>Nododd dros ddwy ran o dair o Ddarparwyr-Gyflawnwyr fod eu morâl yn "Isel" neu'n "Isel Iawn". | Cysylltu â ffurf a chymhelliant staff yn y cynllun | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gyda'i gilydd, Darparwyr-Gyflawnwyr yng Nghymru oedd â'r ymateb isaf o'r holl gwestiynau o gymharu â gweddill y DU | | | | |
| 30. | Addysg Iechyd GIG Lloegr:<br>The Topol Review – Preparing the healthcare workforce to deliver the digital future | Comisiynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol 'The Topol Review: Preparing the healthcare workforce to deliver the digital future', fel rhan o'r Strategaeth Gweithlu Iechyd a Gofal Ddrafft ar gyfer Lloegr hyd at 2027 – Facing the Facts, Shaping the Future.<br>Gwnaeth yr adolygiad argymhellion i ategu nodau cynllun hirdymor y GIG a chynllun gweithredu'r gweithlu a helpu i sicrhau GIG cynaliadwy.<br>Mae'r adolygiad yn cynghori ar:<br>sut mae datblygiadau technolegol a datblygiadau eraill (gan gynnwys genomeg, deallusrwydd artiffisial, meddygaeth ddigidol a roboteg) yn debygol o newid rolau a swyddogaethau staff clinigol ym mhob proffesiwn dros y ddau ddegawd nesaf i sicrhau gofal mwy diogel, cynhyrchiol, effeithiol a phersonol i gleifion<br>beth yw goblygiadau'r newidiadau hyn i'r sgiliau sydd eu hangen ar y gweithwyr proffesiynol sy'n cyflawni'r rolau hyn, gan nodi proffesiynau neu is-arbenigeddau lle gallai'r rhain fod yn arbennig o sylweddol | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | y canlyniadau ar gyfer dethol, cwricwla, addysg, hyfforddiant, datblygiad a dysgu gydol oes staff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, nawr ac yn y dyfodol | | | | |
| Cyhoeddiadau ymchwil sy'n ymwneud yn benodol â'r gweithlu – Cymru, y DU a thu hwnt | | | | | | |
| 31. | Ymchwil y Senedd:<br><br>Llenwi'r bwlch: gwella mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yng Nghymru<br><br>(erthygl gan Rebekah James) | Mae'n trafod rhai o'r materion allweddol sy'n wynebu deintyddiaeth y GIG yng Nghymru a sut mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb, wedi'i rannu fel hyn:<br><br>• Mynediad at wasanaethau deintyddol<br>Cyfeiriodd aelodau at ganfyddiadau arolwg a gynhaliwyd ganddyn nhw, gan dynnu sylw at anawsterau ledled Cymru o ran cael gweld deintydd drwy'r GIG.<br><br>• Diffyg Data<br>Roedd yn cydnabod nad oes darlun clir o faint o bobl sy'n aros i weld deintydd GIG ar hyn o bryd gan nad oes rhestr aros ganolog, ond cadarnhaodd y gweinidog ei bod yn gobeithio y bydd cofrestr ddata ganolog ar waith erbyn diwedd y flwyddyn hon (2023)<br><br>• Contractau deintyddol a chyllid<br>Mae Llywodraeth Cymru yn darparu £2 filiwn ychwanegol bob blwyddyn i wella mynediad at wasanaethau deintyddol ledled Cymru. Anfonodd Cymdeithas Ddeintyddol Prydain lythyr agored at Lywodraeth Cymru yn | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | rhybuddio y bydd contractau newydd yn gorfodi practisau i adael y GIG a rhybuddiodd hefyd y gallai deintyddiaeth y GIG yng Nghymru ddiflannu.<br>• Edrych ymlaen<br>Bydd nodi nifer y bobl sy'n aros i weld deintydd o dan y GIG a blaenoriaethu gwasanaethau yn unol â hynny yn fan cychwyn ar gyfer mynd i'r afael â'r materion presennol.<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhai camau mewn perthynas â deintyddiaeth yng Nghymru, ond mae'n ymddangos bod diffyg cysylltiad rhwng yr hyn y mae rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru yn ei adrodd o ran maint y broblem.<br>Mae'r Gweinidog yn credu bod deintyddiaeth yng Nghymru yn gwella, ond mae wedi cydnabod bod "gennym lawer iawn o waith i'w wneud" a bod angen "llawer o arian i'w ddatrys", sy'n golygu na fydd y dasg yn un hawdd ac na chaiff y mater "ei ddatrys dros nos". | | | | |
| 32. | British Dental Journal<br>Is skill mix profitable in the current NHS dental contract in England? | Mae'r defnydd o gymysgedd sgiliau mewn meddygaeth bellach yn gyffredin, ac eto mae'n ymddangos nad yw ei ddefnydd mewn deintyddiaeth mor amlwg. Yn wahanol i feddygon, mae'n ofynnol i ddeintyddion liniaru'r risg ariannol sy'n codi o'u buddsoddiad cyfalaf a sicrhau llif arian digonol i dalu eu costau rhedeg blynyddol. Felly, | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | (Brocklehurst, P.R; Tickle, M) | mae archwilio'r cymhellion ariannol ar gyfer cyflogi gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn gam pwysig i ddeall pam mae'n ymddangos bod deintyddiaeth ar ei hôl hi o ran cymysgedd sgiliau o gymharu â meddygaeth. Mae hefyd yn briodol, o ystyried cyhoeddiad y llywodraeth glymblaid i ddatblygu contract newydd, a allai gyflwyno cymhellion i ddefnyddio gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn y modd hwn.<br><br>Y canfyddiadau allweddol yw:<br>• Mae'r defnydd cynyddol o gymysgedd sgiliau mewn deintyddiaeth yn parhau i fod ar ei hôl hi o gymharu â meddygaeth, lle mae ei ddefnydd mewn amgylcheddau gofal sylfaenol ac eilaidd yn eang.<br>• Mae ymchwil flaenorol wedi dangos bod cyfyngiadau ariannol yn broblem o ran defnyddio mwy o gymysgedd sgiliau mewn practisau deintyddol.<br>• Mae'r papur hwn yn asesu'r cymhellion ariannol i ddefnyddio cymysgedd sgiliau mewn ymarfer deintyddol cyffredinol o dan gontract presennol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 33. | Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd:<br><br>An Analysis of the Dental Workforce in Wales<br><br>(2012) | Adolygiad a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2011 – Mehefin 2012 ar gais Prif Swyddog Deintyddol Cymru. Nod yr adolygiad oedd cymharu'r cyflenwad disgwyliedig o staff deintyddol yn y dyfodol â'r galw posibl yn y dyfodol a gwneud argymhellion ar gynllunio ar gyfer gweithlu deintyddol cynaliadwy.<br><br>Y galw yn y dyfodol am ddeintyddion sy'n gweithio yng Nghymru<br><br>Roedd y dadansoddiad yn rhagweld nad oedd 59% o'r deintyddion sy'n gweithio yng Nghymru wedi graddio yng Nghymru<br><br>Roedd y rhan fwyaf o'r deintyddion na hyfforddwyd yng Nghymru wedi ennill eu gradd ddeintyddol yn Lloegr<br><br>Roedd 15% o ddeintyddion Cymru wedi ennill eu gradd rywle arall yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd | Cynhaliwyd y dadansoddiad hwn dros 10 mlynedd yn ôl, ac ers hynny mae ffactorau fel Brexit a'r pandemig wedi effeithio'n ddifrifol ar y rhagolygon. | | X | |
| 34. | British Dental Journal: The dental workforce recruitment and retention crisis in the UK<br><br>(Deborah Evans, Ian Mills, Lorna | Papur wedi'i gynhyrchu a'i gyhoeddi yn y British Medical Journal.<br><br>Pwyntiau allweddol:<br><br>Mae deintyddion yn gadael y GIG ac mae'n bwysig deall yn llawn y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu penderfyniadau.<br><br>Mae recriwtio a chadw deintyddion yn bryder mawr mewn llawer o leoliadau ac mae hyn yn cyfrannu at | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Burns, Marie Bryce a Sally Hanks) | ddirywiad pellach mewn mynediad at ofal deintyddol y GIG, sydd yn ei dro yn atgyfnerthu anghydbwysedd daearyddol ac anghydraddoldebau cynyddol o ran iechyd y geg.<br><br>Mae diffyg data clir a chadarn yn tanseilio ein gallu i fynd i'r afael â'r materion presennol yn ymwneud â'r gweithlu deintyddol ac yn peryglu cynllunio strategol hirdymor.<br><br>Mae angen gweithredu ar unwaith ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i sicrhau adferiad o'r argyfwng presennol a diogelu dyfodol deintyddiaeth gofal sylfaenol y GIG ac ymarfer deintyddol cyffredinol. | | | | |
| 35. | Senedd y DU – Pwyllgorau:<br><br>Written evidence submitted by the British Dental Association (RTR0101) | Tystiolaeth Cymdeithas Ddeintyddol Prydain i ymchwiliad y Pwyllgor. Mae eu tystiolaeth yn nodi'r canlynol:<br><br>• Er y niferoedd cymharol sefydlog o ddeintyddion cofrestredig, mae'r niferoedd yng ngweithlu deintyddol gofal sylfaenol y GIG wedi gostwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.<br>• Mae diffyg data ar y gweithlu deintyddol yn gyffredinol, ac nid oes ffigurau cyfwerth ag amser llawn ar gael.<br>• Mae heriau difrifol o ran recriwtio a chadw yn wynebu practisau deintyddol, gyda 9 o bob 10 practis y GIG sy'n ceisio recriwtio deintydd yn dweud eu bod wedi cael anawsterau. | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mae'r heriau hyn yn cael eu hachosi gan ostyngiad mewn termau real yng nghyllid y llywodraeth a chyflogau yn gostwng mewn termau real, contract methedig y GIG, targedau presennol sy'n hynod heriol yn ystod y pandemig, ac ymdeimlad cyffredinol nad yw deintyddion yn rhan werthfawr o'r GIG.<br>• Mae angen cynllunio'r gweithlu ac i ddeintyddiaeth beidio â chael ei chadw oddi wrth weddill y GIG. Mae'r Systemau Gofal Integredig yn rhoi cyfle i wneud hyn, os caiff deintyddion eu cynrychioli yn y strwythurau newydd.<br>• Ni ddylid cwtogi'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni'r radd ddeintyddol. Dim ond drwy drafod â'r ysgolion deintyddol, a'u gallu i addysgu mwy o fyfyrwyr, y dylid gwneud unrhyw newidiadau i'r cap mewn deintyddiaeth a rhaid i unrhyw newidiadau fynd law yn llaw â mwy o gyllid.<br>• Nid yw'r Arholiad Cofrestru Tramor sy'n caniatáu i ddeintyddion tramor gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi bod yn addas i'r diben ers nifer o flynyddoedd.<br>• Mae problemau hefyd yn y broses ar gyfer dangos bod deintyddion â chymwysterau tramor yn bodloni'r gofynion i weithio i'r GIG.<br><br>Mae'n hollbwysig bod yr ymgynghoriad a addawyd ar newidiadau i'r prosesau cydnabod cymwysterau yn cael ei gynnal ar fyrder er mwyn mynd i'r afael â'r | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dyfodol unwaith y daw cydnabyddiaeth 'lled-awtomatig' o gymwysterau'r UE/AEE i ben o 2023, a bod hyn yn arwain at systemau ymarferol ar gyfer cydnabyddiaeth. | | | | |
| 36. | Tŷ'r Cyffredin – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:<br><br>NHS Dentistry | Ymchwiliad y pwyllgor i ddeintyddiaeth yn Lloegr. Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, yn ogystal ag yn eu rolau fel Aelodau Seneddol etholaethol, maen nhw wedi clywed straeon am bobl mewn poen a thrallod am na allan nhw weld deintydd y GIG.<br><br>Roedd yr ymchwiliad yn cynnwys canlyniadau o arolygon ac astudiaethau achos. Roedd peth o'r dystiolaeth yn amlygu'r canlynol:<br><br>• Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan Gymdeithas Ddeintyddol Prydain a'r BBC a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 nad oedd 90% o bractisau ledled y DU yn derbyn cleifion newydd y GIG sy'n oedolion.<br>• Yn ôl arolwg diweddar gan YouGov o 2,104 o bobl ledled y DU ar 22 Mawrth 2023<br>• Nid yw 1 o bob 5 o bobl Prydain (22%) wedi "cofrestru" gyda deintydd ar hyn o bryd<br>• Mae 1 ym mhob 10 o bobl Prydain (10%) yn cyfaddef iddyn nhw roi cynnig ar eu gwaith deintyddol eu hunain<br>• Mae 46% o bobl Prydain wedi gweld deintydd yn y chwe mis diwethaf<br><br>Gwnaeth y Pwyllgor 26 o gasgliadau ac argymhellion wedi'u rhannu'n bedwar categori: - | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mynediad i ddeintyddiaeth<br>• Y Cytundeb Deintyddol<br>• Y Gweithlu<br>• Systemau Gofal Integredig | | | | |
| 37. | Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:<br>NHS Dentistry: Governments Response to the Committee's Ninth Report of Session 2022-23 | Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor ar ddeintyddiaeth a'r 26 o argymhellion a wnaed ar yr adroddiad. | | | X | |
| 38. | The impact of rural-exposure strategies on the intention of dental students and dental graduates to practice in rural areas: a systematic review and meta-analysis<br>(Suphanchaimat R, Cetthakrikul | Amcan yr astudiaeth hon oedd asesu effaith strategaethau ar fwriad myfyrwyr/graddedigion deintyddol i ymarfer mewn ardaloedd gwledig. Roedd y strategaethau'n cynnwys recriwtio myfyrwyr deintyddol o gefndiroedd gwledig a chylchdroadau clinigol mewn ardaloedd gwledig yn ystod hyfforddiant myfyrwyr deintyddol.<br>Daeth yr astudiaeth i'r casgliad: bod myfyrwyr/graddedigion deintyddol â phrofiad gwledig (wedi'i ddiffinio fel mwy o gysylltiad ag ardaloedd gwledig yn ystod hyfforddiant neu recriwtio myfyrwyr o gefndir gwledig) bedair gwaith yn fwy tebygol o fod â bwriad i ymarfer mewn ardaloedd gwledig na'r rhai heb brofiad gwledig. | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | N, Dalliston A, Putthasri W) | | | | | |
| 39. | Coleg Brenhinol y Meddygon:<br><br>The people who care – The Welsh health and care workforce at 75 | Wrth i GIG Cymru nodi 75 mlynedd o ofal iechyd cyffredinol, mae bron i 30 o golegau brenhinol a chyrff proffesiynol sy'n cynrychioli degau o filoedd o nyrsys, meddygon, therapyddion, gweithwyr cymdeithasol, fferyllwyr a pharafeddygon wedi dod at ei gilydd mewn galwad i ddiogelu cleifion drwy gynyddu niferoedd staffio a gwella lles y gweithlu.<br><br>Mae grŵp cynghori colegau brenhinol a chyrff proffesiynol Cymru, a gynullwyd gan Goleg Brenhinol y Meddygon, wedi lansio papur ar y cyd, wedi'i gymeradwyo gan 28 o sefydliadau cenedlaethol, sy'n galw am weithredu i:<br><br>• flaenoriaethu cadw a recriwtio staff<br>• gwarantu amser wedi'i neilltuo ar gyfer addysg, ymchwil, addysgu a gwella ansawdd.<br>• buddsoddi yn y gweithlu cymunedol a modelau gofal newydd<br><br>Ymunodd colegau brenhinol a chyrff proffesiynol hefyd i gefnogi galwadau am:<br><br>• weledigaeth genedlaethol ar ei newydd wedd ar gyfer GIG Cymru yn 100<br>• gwella arferion casglu a dadansoddi data ar y gweithlu<br>• ymrwymiad o'r newydd i atal afiechyd. | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 40. | British Dental Journal - General dental practices with and without a dental therapist: a survey of appointment activities and patient satisfaction with their care<br><br>(E Barnes, A Bullock, J Cowpe, K Moons, W Warren, D Hannington, M Allen, I.G Chestnut, S Bale a C Negrotti) | Mae newidiadau polisi ynghylch rôl Hylenydd-Therapyddion Deintyddol wedi'u rhoi ar waith gyda'r bwriad o hybu'r gwaith o ddarparu gofal iechyd y geg drwy ddull gwaith tîm sy'n canolbwyntio mwy ar ataliaeth.<br><br>Cynhaliwyd ymchwil i archwilio'r triniaethau dan arweiniad Deintyddion a Therapyddion Deintyddol a bodlonrwydd cleifion ar y gofal a gawsant.<br><br>Y canfyddiadau allweddol:<br>• Yn awgrymu y byddai dull gwaith tîm wrth ofalu am gleifion, yn yr achos hwn drwy gynnwys Therapyddion Deintyddol, yn galluogi darparu gofal iechyd y geg ataliol mewn model sy'n dderbyniol i'r claf.<br>• Yn dangos bod dull gwaith tîm yn caniatáu i bob gweithiwr deintyddol proffesiynol ddarparu gofal iechyd y geg sy'n manteisio ar eu cwmpas ymarfer llawn.<br>• Yn dadlau bod angen i reoliadau, contract a systemau cydnabyddiaeth ariannol gyd-fynd â newidiadau polisi.<br><br>Yn ôl y canlyniadau, roedd Deintyddion, mewn practisau sydd â Therapydd Deintyddol, yn gwneud llawer llai o waith ataliol ac adferol, a llawer mwy o echdyniadau a thriniaethau uwch. Roedd bodlonrwydd cleifion a'u hyder yng ngallu Deintyddion neu Therapyddion Deintyddol yn gyson uchel. | Dogfen allweddol ac ysgogiad strategol yn dogfennu'r newidiadau | X | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Casgliad yr astudiaeth oedd bod Practisau sydd â Therapyddion Deintyddol yn darparu dull â ffocws mwy ataliol o ddarparu gofal iechyd y geg; roedd Deintyddion yn y practisau hyn yn gwneud gwaith mwy cymhleth. Mae bodlonrwydd a hyder cadarnhaol cleifion yng ngallu ymarferwyr yn awgrymu bod model ataliol yn dderbyniol i gleifion. | | | | |
| 41. | Llywodraeth Cymru<br><br>Cylchlythyr Iechyd Cymru: Nodau Gwella Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) a Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) 2023-24 | Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sail pedair gwlad i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd nesaf o 2024, ond ar gyfer 2023-24 mae angen canolbwyntio ar barhau i weithio tuag at nodau'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol 5 mlynedd cyfredol.<br><br>Yng Nghymru, y nod yw mynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd drwy ostwng baich heintiau, gwella triniaethau a gwneud y defnydd gorau posibl o feddyginiaethau gwrthficrobaidd mewn pobl.<br><br>Uchelgeisiau'r Cynllun Cenedlaethol yw:<br><br>Optimeiddio'r defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd<br><br>• Gostyngiad o 25% yn y defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd yn y gymuned o linell sylfaen 2013<br>• Gostyngiad o 10% yn y defnydd o wrthfiotigau "wrth gefn" a "gwylio" mewn ysbytai o linell sylfaen 2017<br><br>O fewn Gofal Sylfaenol mae tri nod gwella: | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4. Sicrhau gostyngiad o 25% o leiaf yn y defnydd o gyffuriau gwrthficrobaidd yn y gymuned o linell sylfaen 2013/14<br>5. Dylai presgripsiynwyr ddogfennu'r codau dynodi a'r codau diagnosis clinigol priodol ar gyfer pob presgripsiwn gwrthficrobaidd<br>6. Dylai clystyrau gofal sylfaenol sicrhau y dylai achosion deintyddol brys gael eu gweld gan wasanaethau deintyddol yn hytrach na Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | | | | |
| 42. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br><br>Views and experiences of dentistry: Survey of the UK public | Fel rhan o'r rhaglen ymchwil ehangach, comisiynodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ymchwil yn 2022 ymhlith y cyhoedd i helpu i lywio eu dealltwriaeth o'r sector deintyddol.<br><br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr arolwg:<br><br>Mae rhai pobl yn aflwyddiannus yn eu hymdrechion i drefnu, canslo a gohirio apwyntiadau.<br><br>Dywedodd lleiafrif sylweddol o ymatebwyr nad oedd ganddyn nhw unrhyw bractis deintyddol rheolaidd.<br><br>Roedd ychydig llai na dwy ran o dair wedi ymweld â gweithiwr deintyddol proffesiynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gynnydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<br><br>Nid oedd un o bob pump yn gallu trefnu apwyntiad.<br><br>Mae yna anghydraddoldebau iechyd mewn perthynas â mynediad. Mae'n ymddangos bod pobl | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | iau, pobl o gymunedau ethnig leiafrifol a phobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol yn wynebu heriau a rhwystrau. | | | | |
| 43. | Ymddiriedolaeth Nuffield<br><br>Bold action or slow decay? The state of NHS dentistry and future policy actions<br><br>(Wilf Williams, Elizabeth Fisher a Nigel Edwards) | Cynhyrchwyd adroddiad yn edrych ar sut mae deintyddiaeth gofal sylfaenol cyffredinol yn Lloegr wedi newid, gyda dadansoddiad yn edrych yn bennaf ar waith wedi'i ariannu gan y GIG a rôl ymarferwyr deintyddol cyffredinol sydd â chontract â'r GIG.<br><br>Nododd y dadansoddiad broblemau difrifol â deintyddiaeth yn Lloegr, gan gynnwys:<br>• Anawsterau cynyddol o ran mynediad i ddeintyddiaeth<br>• Canfyddiadau gwael ymhlith y cyhoedd am fynediad a chost<br>• Taliadau yn tyfu ymhell uwchlaw chwyddiant<br>• Anghydraddoldebau parhaus o ran mynediad a chanlyniadau<br>• Amrywiadau eang mewn triniaeth rhwng rhanbarthau<br>• Tanwariant y GIG ar ddeintyddiaeth, er gwaethaf problemau o ran mynediad<br>• Pryderon am y gweithlu a faint o ddeintyddion y GIG sydd ar gael<br>• Contract sy'n anaddas i'r diben | | | X | |
| 44. | Ymddiriedolaeth Nuffield | Dadansoddiad o gyfraddau myfyrwyr sy'n gadael cyn gorffen sy'n dangos graddfa gadael cyn gorffen y GIG ac yn cyflwyno cynllun 10 pwynt i wella | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Waste not, Want Not: Strategies to improve the supply of clinical staff to the NHS | cyfraddau cadw, gan gynnwys cynnig polisi i ddileu dyled myfyrwyr clinigwyr yn raddol dros 10 mlynedd.<br><br>Dyma'r cynllun 10 pwynt:<br><br>1. Rhaid i gyrff cenedlaethol weithredu'n gyflym i gywiro rhai o'r canfyddiadau anghywir a negyddol o hyfforddiant a gyrfaoedd clinigol.<br>2. Rhaid i gyrff cyhoeddus reoli gwerth am arian y £5 biliwn sy'n cael ei wario ar addysg a hyfforddiant clinigol yn well.<br>3. Dylai'r Llywodraeth gomisiynu adolygiad annibynnol o brentisiaethau clinigol lefel gradd.<br>4. Rhaid i'r Llywodraeth nawr ystyried o ddifrif gynnig ffurfiol ar gyfer cynllun maddeuant benthyciadau myfyrwyr i nyrsys, bydwragedd a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd.<br>5. Dylai'r Llywodraeth hefyd werthuso'n ffurfiol fodelau eraill sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i wella cyfranogiad.<br>6. Cynnal (neu gomisiynu) dadansoddiad sylweddol o gystadleurwydd cyflogau cychwynnol a gyrfa gynnar y GIG (a chyrff eraill y sector cyhoeddus) ar gyfer clinigwyr.<br>7. Rhaid mynd i'r afael ar fyrder â'r anghydraddoldebau ymddangosiadol mewn cyfleoedd datblygu gyrfa rhwng proffesiynau.<br>8. Rhaid i gynllunwyr y gweithlu ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol gynllunio'n rhagweithiol ar gyfer y dyhead cynyddol am lwybrau gyrfa mwy amrywiol. | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 9. Mae angen i'r Llywodraeth ailedrych ar fyrder ar y polisïau sydd ar waith ar gyfer hyrwyddo'r cyflenwad o feddygon teulu i wasanaethau'r GIG.<br>10. Mae angen gwella'r data ar gyfraddau gadael cyn gorffen, cyfranogiad a chadw mewn gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Gan ddefnyddio data pwrpasol, gwnaethom archwilio natur y ffrwd hyfforddiant ddomestig ar draws ystod o broffesiynau – nyrsio, bydwreigiaeth, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi, radiograffeg (diagnostig a therapiwtig) a meddygaeth – i amlygu lle mae cyfleoedd posibl i fynd i'r afael â'r cyfraddau sy'n cael eu colli. Bydd gan broffesiynau eraill (gan gynnwys fferylliaeth a deintyddiaeth), wrth gwrs, rai cyfleoedd a heriau penodol mewn perthynas â'r ffrwd hyfforddiant ac mae hyn yn haeddu cael ei archwilio mewn gwaith yn y dyfodol. | | | | |
| 45. | Senedd Awstralia<br><br>Y Pwyllgor Dethol ar Ddarpariaeth a Mynediad at Wasanaethau Deintyddol yn Awstralia:<br><br>A system in decay: a review | Ym mis Mawrth 2023, penderfynodd y Senedd sefydlu'r Pwyllgor Dethol ar Ddarpariaeth a Mynediad at Wasanaethau Deintyddol yn Awstralia. Cafodd y dasg o ymchwilio i'r canlynol:<br><br>a) profiad plant ac oedolion o gael mynediad at wasanaethau deintyddol a gwasanaethau cysylltiedig a pha mor fforddiadwy ydyn nhw;<br>b) i ba raddau mae gwasanaethau deintyddol cyhoeddus yn Awstralia yn ddigonol ac ar gael, gan gynnwys mewn ardaloedd all-fetropolitan, gwledig, rhanbarthol ac anghysbell; | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | into dental services in Australia | c) y rhyngweithio rhwng deddfwriaeth llywodraeth, strategaethau a rhaglenni'r Gymanwlad, y wladwriaeth a thiriogaethau i ddiwallu angen cymunedol am wasanaethau deintyddol;<br>d) darparu gwasanaethau deintyddol o dan Medicare, gan gynnwys yr Atodlen Budd-daliadau Deintyddol i Blant;<br>e) effaith gymdeithasol ac economaidd gwell gofal iechyd deintyddol;<br>f) effaith pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw ar fynediad at wasanaethau deintyddol a gwasanaethau cysylltiedig;<br>g) llwybrau i wella canlyniadau iechyd y geg yn Awstralia, gan gynnwys llwybr i fynediad cyffredinol at wasanaethau deintyddol;<br>h) y graddau y mae arferion casglu data yn ddigonol, gan gynnwys mynediad at ofal deintyddol a chanlyniadau iechyd y geg;<br>i) materion y gweithlu a hyfforddiant sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau deintyddol;<br>j) arferion gorau rhyngwladol ar gyfer mynediad at wasanaethau deintyddol ac ystyriaeth o fudd economaidd hynny;<br>k) unrhyw faterion cysylltiedig.<br><br>Yn ôl rhai o ganfyddiadau'r ymchwiliad, mae'r system ddeintyddol gyhoeddus dan straen difrifol ac mae'r system ddeintyddol breifat yn anfforddiadwy i lawer. | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Mae 32% o oedolion yn adrodd am bydredd dannedd heb ei drin.<br>• Mae un o bob pump o oedolion yn profi'r ddannoedd.<br>• O fewn y gweithlu canfuwyd bod 5% o weithwyr deintyddol proffesiynol cofrestredig yn gweithio yn y system gyhoeddus.<br>• Mae prinder arbenigwyr, yn enwedig y rhai sydd wedi'u hyfforddi i drin cleifion ag anableddau neu anghenion cymhleth eraill.<br><br>Yn seiliedig ar yr ymchwiliad hwn, gwnaed 35 o argymhellion i'r Senedd. | | | | |
| 46. | National Library of Medicine<br><br>Practice Trends and Job Satisfaction of Dental Therapists in Canada: Results from a National Survey | Ymchwil i werthuso tueddiadau ymarfer, gwasanaethau clinigol a bodlonrwydd swydd therapyddion deintyddol yng Nghanada.<br><br>Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y gweithlu presennol yn heneiddio a bod y mwyafrif o therapyddion deintyddol sy'n ymarfer yn gweithio mewn ymarfer preifat. Mae therapyddion deintyddol sy'n ymwneud yn weithredol ag ymarfer clinigol yn darparu gwasanaethau sy'n gyson â chwmpas llawn eu hymarfer. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau nodedig yn bodoli rhwng gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y rheini mewn ymarfer preifat o gymharu â'r rheini sydd wedi'u lleoli mewn clinigau/rhaglenni cyhoeddus neu gymunedol, yn | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | enwedig o ran atal a'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio.<br><br>Roedd y rhan fwyaf o therapyddion deintyddol yn fodlon â'u galwedigaeth a'u rolau presennol. Yn ogystal, roedden nhw'n fodlon ar y cyfan â'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael iddyn nhw. Teimlai'r rhan fwyaf o therapyddion deintyddol eu bod yn aelodau gwerthfawr o dîm gofal iechyd y geg a bod ganddyn nhw lais pwysig yng ngofal iechyd y geg yng Nghanada. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr alwedigaeth yn llawn cymhelliant ac yn angerddol am eu dewis broffesiwn. | | | | |
| 47. | Adroddiad Gofal Iechyd y Geg Denplan 2023 | Mae Denplan yn ddarparwr cynllun talu deintyddol blaenllaw, ac yn gweithio gyda mwy na 6,600 o ddeintyddion sy'n gofalu am tua 1.4 miliwn o gleifion ledled y DU. Mae Adroddiad Gofal Iechyd y Geg blynyddol Denplan yn un o'r arolygon mwyaf cynhwysfawr o agweddau ac arferion cleifion yn y DU.<br><br>Dyma rai o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad:<br><br>• Mae mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn parhau i fod yn her i lawer ac ymhlith y rhai sy'n gweld deintydd GIG ar hyn o bryd, byddai nifer cynyddol bellach yn ystyried deintyddiaeth breifat (61%), yn enwedig pe bydden nhw'n cael trafferth cael apwyntiad y | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | GIG, neu pe byddai'n golygu cael triniaeth gyflymach.<br>• Gwelwyd gostyngiad yn nifer yr oedolion yn y DU sy'n ymweld â'u deintydd neu hylenydd yn rheolaidd, gyda 23% yn ymweld llai na phob dwy flynedd, dim ond pan fyddan nhw mewn poen, neu ddim o gwbl.<br>• Dywedodd o leiaf 40% o'r rhai dan 55 oed eu bod wedi canslo apwyntiad deintyddol am na allan nhw ei fforddio. | | | | |
| 48. | Healthwatch:<br>What people have told us about NHS dentistry<br>A review of our evidence – April to September 2021 | Adroddiad briffio ar arolwg deintyddiaeth ac ystadegau a gynhaliwyd yn Lloegr.<br>Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn cynnwys:<br>• Ni wnaeth 6% o ymatebwyr lwyddo i gael apwyntiad yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.<br>• Dywedodd un practis deintyddol fod ganddyn nhw restr aros o 6,000 o bobl<br>• Mae mynediad at ofal brys yn anodd, gydag achosion o unigolion yn aros hyd at 38 diwrnod.<br>• Triniaethau canser yn cael eu gohirio am na all pobl gael y driniaeth ddeintyddol angenrheidiol cyn y gallan nhw ddechrau eu rownd nesaf o therapi<br>• Pobl yn troi at brynu pecynnau hunangymorth a llenwad dros dro o archfarchnadoedd. | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 49. | Cronfa'r Brenin<br>Public Satisfaction with the NHS and social care in 2022 | Mae Arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, wedi'i gynnal yn flynyddol ers 1983. Bob blwyddyn mae'r arolwg yn gofyn i bobl sut beth yw byw ym Mhrydain a beth yw eu barn am sut mae Prydain yn cael ei rhedeg, gan gynnwys mesur lefelau bodlonrwydd y cyhoedd â'r gwasanaethau iechyd a gofal.<br>Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf rhwng 7 Medi a 30 Hydref 2022 a gofynnodd i sampl cynrychioliadol cenedlaethol (ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban) o 3,362 o bobl am eu bodlonrwydd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gyffredinol, a 1,187 o bobl am eu bodlonrwydd ar wasanaethau penodol y GIG, yn ogystal â'u barn ar gyllid y GIG.<br>• Gostyngodd bodlonrwydd cyffredinol â'r GIG i 29 y cant – gostyngiad o 7 pwynt canran o 2021. Dyma'r lefel isaf o fodlonrwydd a gofnodwyd ers i'r arolwg ddechrau ym 1983.<br>• Roedd mwy na hanner (51%) yr ymatebwyr yn anfodlon â'r GIG, y gyfran uchaf ers i'r arolwg ddechrau.<br>• Syrthiodd bodlonrwydd ar ddeintyddiaeth y GIG i'r lefel isaf erioed o 27 y cant a chynyddodd anfodlonrwydd i'r lefel uchaf erioed o 42%.<br>• Dywedodd 24% o'r ymatebwyr eu bod yn 'anfodlon iawn' ar ddeintyddiaeth y GIG – | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cyfran uwch nag ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal eraill y gofynnwyd amdanynt yn yr arolwg.<br>• Gofynnwyd i'r cyhoedd pa mor fodlon neu anfodlon ydyn nhw ar wahanol wasanaethau iechyd a gofal: meddygaeth deulu, deintyddiaeth, cleifion mewnol, cleifion allanol a gwasanaethau damweiniau ac achosion brys. Yn arolwg 2021, gwelwyd gostyngiadau digynsail mewn bodlonrwydd ar ddeintyddiaeth (o 60 i 33 y cant) | | | | |
| 50. | Iechyd Cyhoeddus Cymru:<br>Iechyd y boblogaeth mewn oes ddigidol – Y defnydd o dechnoleg ddigidol i gefnogi a monitro iechyd yng Nghymru | Mae gwireddu potensial technoleg ddigidol i ategu systemau iechyd y boblogaeth yng Nghymru wedi'i amlygu.<br>Mae gan dechnoleg ddigidol y potensial i rymuso a chefnogi pobl i fyw bywydau iachach, gan gynnwys cael gafael ar wybodaeth am iechyd a gwasanaethau iechyd, cefnogi newid ymddygiad, monitro a gwneud diagnosis o symptomau, rheoli cyflyrau iechyd hirdymor a chreu cysylltiadau cymdeithasol. | | | X | |
| 51. | British Dental Journal:<br>The impact of the COVID-19 | Deall yr effaith y mae pandemig COVID-19 wedi bod yn ei chael ar iechyd meddwl deintyddion sy'n gweithio yng Nghymru, yn ogystal â deall lefelau | Tystiolaeth ar gyfer thema sy'n cael ei defnyddio fel rhan o'r | | | X |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | pandemic on the mental health of dentists in Wales<br><br>(Owen, C; Seddon, C; Clarke, K; Bysouth, T; Johnson, D) | straen y mae'r pandemig wedi'i achosi. Ein nod hefyd oedd deall achosion penodol o straen.<br><br>Mae'r pandemig wedi cael effaith ddofn ar fywydau proffesiynol deintyddion sy'n gweithio yng Nghymru. Effeithiwyd yn fawr ar eu rhyngweithio â chleifion a chydweithwyr, yn ogystal â'u gwaith a'u hamodau gwaith. Mae'r rhain i gyd wedi cyfrannu'n sylweddol at gynnydd mewn lefelau straen. Heb welliannau sylweddol i amodau gwaith deintyddion, yn ogystal â chymorth seicolegol parhaus, mae lludded ar raddfa fawr yn y dyfodol nid yn unig yn bosibl, ond yn debygol.<br><br>Canfuwyd lefelau uchel o straen, gyda 82% o ymatebwyr yn dweud bod lefelau straen yn y tîm deintyddol wedi cynyddu'n amlwg. Mae tri chwarter yr ymatebwyr wedi mynd i'r gwaith er nad oedden nhw'n teimlo'n ddigon iach yn feddyliol. Mae amodau gwaith a phwysau ariannol a achoswyd gan y pandemig wedi effeithio'n uniongyrchol ar iechyd meddwl llawer o ddeintyddion. O ganlyniad, maen nhw wedi bod yn defnyddio dulliau ymdopi ymaddasol a chamaddasol i ymdopi â straen y pandemig, gyda thros draean o ymatebwyr yn yfed alcohol yn amlach na chyn y pandemig. | cynllun gweithlu strategol | | | |
| 52. | Gofal Sylfaenol Un<br><br>AaGIC - Dental Workforce May | Awgrymodd yr astudiaethau achos fod defnyddio methodoleg cymysgedd sgiliau wedi arwain at dîm mwy cydlynol, a'i fod mewn un achos wedi lleihau | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023 3 case studies to evidence: Prevention and Quality, DCP utilisation and skill mix | amser aros cleifion ar gyfer triniaeth llenwad a pheriodontol o fisoedd i wythnosau. | | | | |
| 53. | British Dental Journal<br><br>Where have all the dental nurses gone?<br><br>Silver, H. | Mae'n ymddangos bod yr adroddiad cofrestru a gyhoeddwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ym mis Awst 2021 wedi creu trafodaeth ym maes deintyddiaeth. Pam fod nifer y nyrsys deintyddol cofrestredig wedi lleihau? Yn enwedig o gymharu â'r adroddiad cofrestru a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021, ychydig cyn y dyddiad cau, sef 31 Gorffennaf, i weithwyr gofal deintyddol proffesiynol dalu eu ffi gofrestru flynyddol.<br><br>Mae'n ymddangos bod sôn ar y cyfryngau cymdeithasol ac wyneb yn wyneb bod yna argyfwng recriwtio a bod 5,000 o nyrsys deintyddol wedi gadael y proffesiwn. Ond a ydyn nhw?<br><br>Bydd yr erthygl hon yn trafod a yw'r awdur hwn yn credu bod hyn yn wir, ac ai'r data sy'n cael ei gadw gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yw'r ffordd orau o ateb y cwestiwn: 'I ble'r aeth yr holl nyrsys deintyddol?' | | | X | |
| 54. | Cyngor Deintyddol Cyffredinol – | Mae'r adroddiadau cofrestru blynyddol yn rhoi cipolwg ar ddata ystadegol ar gofrestru deintyddion a gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol o | Crynodeb o aelodau cofrestredig y | | | X |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Annual registration reports | Gofrestrau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol dros flwyddyn gyfan, gan gynnwys:<br>• cyfanswm nifer y gweithwyr deintyddol proffesiynol yn ôl teitl<br>• proffil cydraddoldeb ac amrywiaeth y Cofrestrau<br>• ystadegau blynyddol yn ymwneud ag ychwanegu a gwaredu enwau, a chategorïau'r newidiadau hynny<br><br>Yng nghyfnod adrodd 2022<br>➢ Gwnaeth 1,348 o bobl gais i ymuno â'r gofrestr fel deintydd dros y cyfnod adrodd.<br>➢ Ychwanegwyd 753 o bobl at gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol fel deintydd dros y cyfnod (o'r ceisiadau a dderbyniwyd yn y cyfnod adrodd)<br>➢ Roedd gan 580 ddiploma Ewropeaidd perthnasol mewn deintyddiaeth neu gymhwyster tramor cydnabyddedig.<br>➢ Llwyddodd 160 yn yr Arholiad Cofrestru Tramor.<br>➢ Aseswyd cymwysterau 13 (gwnaed y ceisiadau hyn drwy lwybr sydd bellach wedi cau ar gyfer dibynyddion personau yr oedd eu cymwysterau o'r UE yn cael eu cydnabod ar y cyd). | Cyngor Deintyddol Cyffredinol | | | |
| 55. | Cymdeithas Brydeinig y | Cynhaliwyd Arolwg Cadw Nyrsys Deintyddol y DU drwy gyfrwng arolwg ar-lein rhwng 22 Chwefror | | | | X |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nyrsys Deintyddol - Dental Nurse UK Retention Survey 2023<br><br>(Reed, D.P.) | 2023 a 22 Mawrth 2023. Cymdeithas Nyrsys Deintyddol Prydain a wnaeth gynnal yr arolwg a darparu cymorth gweinyddol drwyddo draw. Mae mynediad at driniaeth ddeintyddol yn y DU wedi cael sylw cenedlaethol, drwy'r gyfryngau poblogaidd a grwpiau proffesiynol deintyddol ac fel rhan o ddadleuon ac adroddiadau Senedd y DU. Mae'r term 'anialwch deintyddol' wedi dod yn rhan o'n geirfa genedlaethol fel trosiad am absenoldeb practisau deintyddol, ac absenoldeb gweithwyr deintyddol proffesiynol i ddarparu gofal, mewn nifer o ranbarthau ledled y DU.<br><br>Pan luniwyd yr astudiaeth hon, roedd 114,595 o weithwyr deintyddol proffesiynol wedi'u cofrestru gan reoleiddiwr deintyddol y DU, y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae yna ddiffyg ymhlith rhai proffesiynau deintyddol, fel deintyddion, wedi'i gysylltu â chanfyddiad o ostyngiad yn nifer y nyrsys deintyddol (59,102 wedi cofrestru) sydd wedi'i alw'n 'argyfwng recriwtio'.<br><br>Er bod llawer o ffocws wedi bod ar recriwtio a chadw deintyddion, prin yw'r ddealltwriaeth sydd o'r sefyllfa o ran maint y gweithlu nyrsys deintyddol. Hyd yn hyn, ychydig o dystiolaeth gyfoes fanwl sydd wedi'i neilltuo i fater recriwtio neu gadw nyrsys deintyddol. | | | | |
| 56. | Coleg Deintyddiaeth Gyffredinol – | Myfyrio ar ganlyniadau Arolwg Cadw Nyrsys Deintyddol y DU (2023) | | | | X |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | How the dental sector could retain dental nurses.<br><br>(Reed, D.P.) | Ar hyn o bryd mae dros 61,663 o nyrsys deintyddol ar gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, sy'n golygu mai nyrsys deintyddol yw'r grŵp galwedigaethol mwyaf o'r rhai ar y gofrestr ddeintyddol. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu gostyngiad canfyddedig yn nifer y nyrsys deintyddol, i'r graddau bod hyn wedi'i alw'n 'argyfwng recriwtio'.<br><br>Mae prif gasgliadau'r adroddiad dilynol yn rhoi dealltwriaeth werthfawr o'r rhesymau y mae nyrsys deintyddol am aros yn y proffesiwn, yn ogystal â rhai o'r ffactorau a allai eu harwain i ystyried gadael.<br><br>Mae tri phrif ffactor a wnaeth annog 50% o'r nyrsys deintyddol a ymatebodd i barhau ar gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a pharhau i weithio yn y sector deintyddol. Dyma'r ffactorau hyn yn eu trefn:<br><br>• **Ystyr a thwf**, gan ganolbwyntio ar resymau'n ymwneud â bodlonrwydd swydd, gan gynnwys gwaith ystyrlon, strwythur gyrfa a chyfleoedd ar gyfer dilyniant a thwf proffesiynol.<br>• **Gwobrau anghynhenid**, gan gynnwys contractau cyflogaeth, cydnabyddiaeth ariannol a thâl, yn ogystal â gwobrau a chymhellion ychwanegol sy'n cael eu darparu gan gyflogwyr.<br>• **Diwylliant ac amgylchedd y gweithle**, a ddiffiniwyd fel set o werthoedd, credoau, agweddau, a thybiaethau sy'n gyffredin i'r rhai sy'n gweithio gyda'i gilydd, sy'n dylanwadu ar | | | | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ymddygiadau a rhyngweithiadau ymhlith cydweithwyr o fewn y tîm deintyddol. Mae amgylchedd y gweithle hefyd yn golygu'r lleoliad ac amodau ffisegol, fel strwythur yr adeilad, offer a deunydd, yn ogystal â'r diwylliant. | | | | |
| 57. | Llywodraeth Cymru<br><br>Ymchwil i "Hygyrchedd Da" mewn Fferylliaeth Gymunedol, Deintyddiaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gwasanaethau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (2023) | Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar beth mae mae 'hygyrchedd da' yn ei olygu i'r cyhoedd yn gyffredinol o safbwynt fferylliaeth gymunedol, deintyddiaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a gwasanaethau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.  Mae amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru eisoes ar waith, neu'n cael eu gweithredu, i wella mynediad at ofal sylfaenol. Roedd gan arweinwyr polisi ddiddordeb neilltuol mewn deall barn y dinesydd o beth mae 'hygyrchedd da' yn ei olygu er mwyn adnabod unrhyw gyfleoedd pellach i ddatblygu polisi.<br><br>Mewn perthynas â Deintyddiaeth y GIG mae hyn yn golygu:<br><br>• Gwerth mynychu'r un practis a gweld yr un deintydd ym mhob archwiliad rheolaidd.<br>• Y gallu i gael apwyntiad am archwiliad i'r teulu cyfan ar yr un pryd.<br>• Hygyrchedd da ar hyn o bryd o ran deintyddiaeth frys.<br>• Y gallu i drefnu apwyntiadau rheolaidd gydag ychydig wythnosau o rybudd.<br><br>*Enghreifftiau o hygyrchedd gwael:* | | | X | |

| Cyf | Dogfen Allweddol | Pwyntiau cyfeirio allweddol, camau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer cynllunio'r gweithlu | Perthnasedd i'r cynllun gweithlu | Strategaeth | Adolygiad llenyddiaeth | Y ddau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | • Prinder eang o bractisau i dderbyn cleifion newydd y GIG yng Nghymru.<br>• Canslo apwyntiadau (plant yn benodol).<br>• Anallu i ddefnyddio deintydd cyfagos.<br>• Y graddau cyfyngedig mae deintyddion y GIG sy'n agored i gleifion newydd ar gael, problem a gaiff ei gwaethygu gan niferoedd cynyddol o feddygfeydd deintyddol nad ydyn nhw'n darparu gofal deintyddol ar y GIG mwyach.<br>• Diffyg deintyddion y GIG sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig gan gyfranogwyr yng ngogledd Cymru.<br>• Oriau agor cyfyngedig deintyddion (e.e. cau am 4pm) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gleifion gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith.<br>• Pobl yn cael eu tynnu oddi ar restrau cleifion am beidio â threfnu archwiliad.<br>• Practisau deintyddol presennol yn mynd yn gwbl breifat a hwythau'n methu â fforddio talu'n breifat ac felly'n colli eu deintydd.<br>• Yn feirniadol bod apwyntiadau yn rhy fyr, gan arwain at y deintydd yn mynd yn brin o amser ac yn gorfod cyflawni ateb dros dro a all wneud y broblem yn waeth. | | | | |